



CARTREFI'R FRO

“Gwella Llais y Tenant” – Ein Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid

1.0 Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu ein dull o roi mwy o lais i denantiaid yn y gwasanaethau a gyflenwir gan y Cyngor. Mae'r ddogfen hon yn datblygu'r themâu a nodwyd yn y strategaeth flaenorol (2012-15), gyda'r nod o hyrwyddo mwy o ymgysylltu, gan gynnwys tenantiaid o grwpiau demograffig gwahanol nad ydynt o bosibl wedi cymryd rhan o'r blaen.

Ein gweledigaeth yw:

“Gwella llais y tenant drwy gynyddu ystod yr ymgysylltu â thenantiaid a chynnwys ystod eang o denantiaid o gefndiroedd gwahanol”

Mae hefyd yn hanfodol bod ymgysylltu â thenantiaid yn arwain at newidiadau sy'n gwella ansawdd gwasanaethau tai ac adeiladau'r Cyngor, felly mae angen sicrhau bod ymgysylltu â thenantiaid yn rhan hanfodol o'n busnes, yn dylanwadu ar sut y caiff gwasanaethau eu darparu, sut bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud a sut mae'r arian yn cael ei wario. Mae'r ddogfen hon yn ymwneud ag anghenion cyffredinol a thenantiaid tai gwarchod.

2.0 Y cyd-destun strategol

Yn 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Cenedlaethol gyntaf (SCTC). Roedd hyn yn golygu bod rhaid i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ddatblygu eu Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol eu hunain er mwyn uchafu hawliau tenantiaid i gyfrannu ac i hyrwyddo rhagoriaeth mewn cyfranogiad tenantiaid.


Cyhoeddwyd Strategaeth gyntaf Bro Morgannwg yn 2008 ac roedd yn canolbwyntio ar gael yr hanfodion yn gywir. Yn y gorffennol, roedd lefelau ymgysylltu yn isel a doedd dim llawer o gyfleoedd i breswylwyr gymryd rhan a dylanwadu ar y gwasanaethau y maen nhw'n eu derbyn. Cwblhawyd y ddogfen nesaf yn 2010 ac roedd yn ddogfen fwy uchelgeisiol oedd â'r bwriad o wneud gwelliannau sylweddol mewn ymgysylltu â thenantiaid. Cafodd ei lywio gan ymgynghoriad cynhwysfawr gyda thenantiaid ac aelodau staff, ac adolygiad o arfer gorau gan landlordiaid eraill.

Lluniwyd y strategaeth bresennol i adeiladu ar y gwaith da a gwblhawyd hyd yn hyn ac i ehangu a datblygu lefelau ymgysylltu â thenantiaid, gan alluogi mwy o bobl o amryw o gefndiroedd i gymryd rhan. Mae hefyd angen sicrhau bod llais y tenantiaid yn cael ei glywed ac yn chwarae rhan bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau.

3.0 Cysylltiadau â Strategaethau eraill - Cynllun Corfforaethol

Mae'r darlun canlynol yn amlygu'r cysylltiadau rhwng prif nodau'r Strategaeth hon a'r amcanion allweddol yn y Cynllun Corfforaethol newydd 2016-20. Mae'r wyth cylch yn cyfleu'r amcanion yn y Cynllun Corfforaethol ac mae'r rheiny sydd â lliw tywyllach yn rhai sydd wedi alinio'n agosaf. **Nid yw hyn yn golygu nad yw'r Strategaeth yn berthnasol i'r amcanion goleuach.**

Mae'r cyfraniad mwyaf yn ymwneud â thai a chartrefi ynghyd â diogelu'r amgylchedd; fodd bynnag ni ddylwn beidio ag ystyried yr effaith o ran adfywio a lleddfu effeithiau tlodi.



Ymhlith y strategaethau a'r mentrau eraill sy'n cefnogi'r Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid mae; Strategaeth Buddsoddi Cymunedol, Strategaeth Amgylchedd a Chymdogaeth (Tai), Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Gwasanaeth Adrannol. Gyda'i gilydd, bydd y dogfennau hyn yn sicrhau bod ymgysylltu â thenantiaid yn thema drawsbynciol a bod manteision i denantiaid y Cyngor wrth wraidd popeth yr ydym yn ei wneud.

4.0 Cymorth ariannol

Mae'r Cynllun Busnes Tai yn nodi ymrwymiad sylweddol y Cyngor i ariannu ymgysylltu â thenantiaid.

- Caiff dros £36,000 ei gynnig i grwpiau tenantiaid ffurfiol bob blwyddyn er mwyn cefnogi'r gweithgareddau a'r gost o'u cynnal;
- Mae ymrwymiadau refeniw wedi'u gwneud i ariannu dau Swyddog Buddsoddi a Chyfranogi Cymunedol;
- Cyllidebau cyfranogiad o £10,000 y flwyddyn ar gyfer cynlluniau llai a arweinir gan breswylwyr ym mhob un o'r pedwar maes rheoli cymdogaethau (cyfanswm o £40,000) ynghyd â £20,000 ychwanegol wedi'i ddyrannu i ddau Uwch Reolwr Cymdogaeth i ariannu projectau gwella ychwanegol.
Y bwriad yw parhau â'r cyllid hwn am nifer o flynyddoedd er mwyn adeiladu capasiti cymunedau lleol a'u hymrymuso'n well iddyn nhw arwain yn eu hardaloedd eu hunain.

5.0 Fframwaith presennol ar gyfer Ymgysylltu â Thenantiaid

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o waith wedi'i wneud i wella'r dylanwad sydd gan denantiaid dros y gwasanaeth tai a swyddogaeth landlordiaid. Mae'r siartiau canlynol yn nodi'r ystod o fecanweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd i denantiaid allu ymgysylltu'n ffurfiol ac yn anffurfiol:

Ymgysylltu ffurfiol

Grŵp	Nifer y tenantiaid	Diben
Pwyllgor Craffu Tai a Chymunedau Diogel	X4 cynrychiolwyr tenantiaid	Adolygu perfformiad Ystyried cynigion/syniadau newydd

Fforwm Ansawdd Dylunio	6 o denantiaid	Goruchwylio'r rhaglen SATC
Gweithgor Tenantiaid	Oddeutu 15 o denantiaid	Grŵp ymbarél o denantiaid o fyrddau preswylwyr gwahanol sy'n cwrdd ac yn ystyried materion strategol sy'n effeithio ar y gwasanaeth tai e.e. polisiau newydd, perfformiad, gwasanaethau newydd ac ati.
Grŵp Tai Gwarchod	Oddeutu 20 o denantiaid	Grŵp ymbarél yn cynrychioli tenantiaid ym mhob un o'r pump safle tai gwarchod.
Byrddau Preswylwyr Lleol (x9)	Mae'r nifer sy'n mynychu'n amrywio, fel arfer bydd rhwng 8 a 25 o denantiaid yn mynd i bob cyfarfod	Trafod materion lleol ar ystadau gan gynnwys cyflwr ystadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfleusterau, parcio, traffig ac ati.

Ymgysylltu anffurfiol

Cynrychiolydd ar Banel Ymgynghorol y Cylchlythyr	Mae'r Panel yn cytuno ar gynnwys ar gyfer y cylchlythyr tenantiaid bob chwe mis, gan gynnwys yr ystod o erthyglau, dyluniad
Teithiau o amgylch ystadau	Mae teithiau o amgylch ystadau yn rhoi cyfle i denantiaid weithio gyda'u Rheolwr Cymdogaeth a phartneriaid o asiantaethau eraill er mwyn gwneud ystadau'n llefydd gwell i fyw ynddynt
Grwpiau Arolwg/Ffocws	Caiff grwpiau eu hymgynnull at ddibenion penodol gan gynnwys cydlynu'r arolwg tenantiaid ar raddfa fawr, rheoli'r Gardd Gymunedol yn Nhreharne ac ati.
Cyfleoedd hyfforddi	Caiff ystod eang o sesiynau hyfforddi eu cynnig i denantiaid i'w helpu nhw i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau. Ymhlith yr enghreifftiau o sesiynau mae: iechyd a diogelwch ar safleoedd adeiladu, cynhwysiant digidol, ryseitiau rhad ac ati.
Digwyddiadau/Gweithgareddau Cymunedol	Maent yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn cynnig gwybodaeth am y gwasanaeth tai, gan hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid a chynyddu rhyngweithio cymdeithasol. Mae'r digwyddiad Festivele blynyddol yn enghraifft, y mae dros 500 o denantiaid yn ei fynychu, y sioeau teithiol Help Llaw Cymunedol sydd wedi cael eu cynnal ar nifer o ystadau ledled y Fro, 'Cic' - y fenter i gael pobl ifanc allan yn chwarae pêl-droed.



Ymgynghori unigol	Mae unigolion yn cynnig adborth gwerthfawr drwy lenwi arolygon boddhad, cymryd rhan mewn arolygon dros y ffôn, cynnig sylwadau/cwynion ac ati.
-------------------	--






6.0 Barn a blaenoriaethau preswylwyr


Mae nifer o ymgynghoriadau wedi'u cynnal gyda thenantiaid ac wedi rhoi mewnbwn gwerthfawr ar yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r rhain yn cynnwys, adborth o gyfarfodydd gyda Byrddau Preswylwyr amrywiol, trafodaethau gyda'r Gweithgor Tenantiaid, ymgynghoriadau mewn digwyddiadau poblogaidd, gan gynnwys Festivele a sioeau teithiol mewn ystadau amrywiol. Yn ychwanegol, roedd yr arolwg tenantiaid ar raddfa fawr (a elwir hefyd yn arolwg STAR) yn rhoi barn dros 1,300 o denantiaid.

Mae'r graffiau a'r siartiau canlynol yn rhoi crynodeb o'r prif adborth a dderbyniwyd. Yn gyntaf, y canlyniadau STAR:



Cwblhawyd 48 o ffurflenni arolwg gan denantiaid, yn y digwyddiad Festivale 2017, yn benodol ynghylch ymgysylltu â thenantiaid. Dyma'r canlyniadau:





Mae rhai themâu'n ymddangos droeon. Ymhlith y rheiny mae:

- Cyfathrebu/Sicrhau bod gan bobl wybodaeth ddiweddar: roedd canlyniadau'r arolwg STAR yn dangos mai dim ond 70% o denantiaid oedd o'r farn fod y Cyngor yn rhoi gwybodaeth ddiweddar iddynt. Roedd tenantiaid anghenion cyffredinol yn llai bodlon (69%) o'u cymharu â thenantiaid mewn llety gwarchod (78%);
- Gwrando ar farn trigolion a gweithredu arni: Cytunodd 69% o'r tenantiaid fod y Cyngor yn ystyried barn y tenantiaid ac yn gweithredu arni. Mae hyn ychydig yn is na'r canolrif ar gyfer landlordiaid cymdeithasol (70%) ac mae lle i wella. Doedd nifer arwyddocaol o denantiaid ddim yn poeni am y cwestiwn hwn (16%);
- Creu cyfleoedd i fwy o denantiaid gymryd rhan; gall aelodaeth y grwpiau tenantiaid presennol gynnwys cyfran sylweddol o bobl hŷn; yn yr un modd, mae'r grwpiau'n tueddu i fod yn grwpiau sefydledig sydd wedi'u lleoli ar rai o'r ystadau mwy. Mae hyn yn amlygu'r potensial i gynnwys tenantiaid o grwpiau demograffig gwahanol ac i greu grwpiau newydd mewn ardaloedd lle bo llai o gynrychiolaeth ar hyn o bryd o bosibl;
- Mae gan denantiaid ddiddordeb mewn cyfrannu mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys adolygu polisïau a gweithdrefnau, siopwyr cudd, byrddau/paneli ymgynghori, penderfyniadau am gyllidebau ac ati.

- Tenantiaid yn anymwybodol am gyfleoedd iddyn nhw gyfrannu, gydag awgrymiadau gan gynnwys ehangu'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol a byrddau hysbysebu cymunedol yn cael eu gweld fel ffyrdd positif o rannu gwybodaeth;
- Efallai nad oes gan rai tenantiaid yr hyder neu efallai eu bod nhw'n credu nad oes ganddyn nhw'r sgiliau i gymryd rhan.

6.0 Dadansoddiad SWOT

Cynhaliwyd dadansoddiad SWOT (Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau) ar y trefniadau presennol ar gyfer ymgysylltu â thenantiaid fel ffordd o adnabod blaenoriaethau'r dyfodol:

Cryfderau	Gwendidau
<p>Llawer iawn o Fyrddau Preswylwyr presennol yn gweithio mewn ardaloedd gwahanol o'r Fro</p> <p>Tenantiaid presennol dibynadwy</p> <p>Tenantiaid yn cymryd rolau actif yn y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel</p>	<p>Tenantiaid presennol ddim yn cynrychioli'r boblogaeth tenantiaid ehangach (tueddu i fod y tenantiaid hŷn sy'n byw mewn llety gwarchod)</p> <p>Nid yw tenantiaid yn cymryd rôl weithredol wrth adolygu perfformiad na phrofi gwasanaethau</p> <p>Mae cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan yn eithaf cyfyngedig ac yn tueddu i fod yn ffurfiol (yn hytrach na'n anffurfiol)</p>
Cyfleoedd	Bygythiadau
<p>Sgôp i denantiaid gael mwy o ddylanwad ar y broses o wneud penderfyniadau (strwythur llywodraethu)</p> <p>Grymuso grwpiau lleol i ddod yn fwy actif yn eu cymunedau</p> <p>Denu tenantiaid newydd i gymryd rhan mewn ffyrdd creadigol</p> <p>Dewis mwy hyblyg i denantiaid o ran cymryd rhan</p> <p>Hyrwyddo ymgysylltu â thenantiaid a chyfleoedd i denantiaid gymryd rhan</p>	<p>Difaterwch – mae tenantiaid yn brysur ac efallai na fydd cymryd rhan mewn projectau cymunedol ehangach yn flaenoriaeth i rai</p> <p>Nid yw dulliau ymgysylltu â thenantiaid presennol yn effeithiol o ran denu tenantiaid 'actif'</p> <p>Nid yw barn tenantiaid yn cael ei ystyried h.y. nid yw'n rhan o broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor (neu nid yw'n cael digon o ddylanwad).</p>

7.0 Beth yw'r amcanion?



8.0 Amcanion a Chanlyniadau Ymgysylltu â Thenantiaid

Amcan 1: INTEGRREIDDIO – gwneud ymgysylltu â thenantiaid yn rhan hanfodol o’n busnes, gan ddylanwadu ar sut y caiff gwasanaethau eu darparu, sut mae penderfyniadau’n cael eu gwneud a sut mae arian yn cael ei wario.

Canlyniadau

1.1 Mae tenantiaid a grwpiau tenantiaid yn chwarae rhan bwysig ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Adran

1.2 Mae staff rheng-flaen yn rhan o'r egwyddorion o Ymgysylltu â Thenantiaid

Yr hyn yr ydym yn ei dargedu	Astudiaeth achos
Prif Swyddog (Pennaeth Gwasanaeth) yn gweithredu fel pencampwr dros ymgysylltu â thenantiaid ac yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r Strategaeth	Mae pedwar lle'n cael eu cadw ar gyfer tenantiaid ar y Pwyllgor Craffu Tai a Chymunedau Diogel. Golyga hyn bod tenantiaid wrth wraidd pob trafodaeth allweddol a phenderfyniad strategol ynghylch y gwasanaeth ynghyd â'r broses o gymeradwyo'r gyllideb.
Gweithio'n agos gyda'r gweithgor tenantiaid a'r Fforwm Dylunio Ansawdd i gynyddu aelodaeth a datblygu capasiti. Yn ogystal, sicrhau bod ymgynghori rheolaidd â'r ddau grŵp ar wasanaethau a bod ganddynt fewnbwn ystyrion ar strategaethau a pholisïau allweddol sy'n effeithio ar denantiaid.	Mae dau grŵp tenantiaid yn ffurfio rhan bwysig o'r strwythur llywodraethu, yn benodol y gweithgor tenantiaid a'r fforwm dylunio ansawdd. Mae'r ddau grŵp yn cwrdd yn rheolaidd ac yn adolygu penderfyniadau strategol, cymeradwyo polisïau, adolygu perfformiad a lefelau boddhad, gan weithredu'n aml fel bwrdd ymgynghori cyn i adroddiadau gael eu cyflwyno i'r Cabinet neu Bwyllgor Craffu. Mae hyn yn sicrhau bod pob maes gwaith yn cael ei ystyried o bersbectif tenant.
Mae staff tai yn rhan o egwyddorion ymgysylltu â thenantiaid ac yn gallu dangos cyfraniad positif trwy eu gwaith eu hunain	
Sefydlu tîm craffu tenantiaid a rhoi hyfforddiant fel eu bod yn gallu ymgymryd â gwiriadau ansawdd ac adolygiadau gwasanaeth	

Amcan 2: CYNHWYSOL – sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bob tenant i gymryd rhan a gwella'r lefelau ymgysylltu presennol

Canlyniadau

2.1 Tenantiaid yn teimlo'n rymus

2.2 Mae ymgysylltu â thenantiaid yn cynrychioli'r boblogaeth denantiaid ehangach

Yr hyn yr ydym yn ei dargedu	Astudiaeth achos
Datblygu bwydlen hyblyg o gyfranogiad tenantiaid sy'n galluogi trawstoriad ehangach o denantiaid fydd yn cymryd rhan	Mae ystod eang o Fyrddau Preswylwyr yn gweithredu ledled y Fro; mae llawer o'r rhain yn grwpiau sefydledig sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sy'n berthnasol i'w hardaloedd nhw. Ynghyd â'r grwpiau ffurfiol, mae llawer o gyfleoedd anffurfiol i gymryd rhan, gan gynnwys cymryd rhan mewn teithiau o'r ystâd, llenwi arolygon neu fynychu sioeau teithiol a dyddiau hwyl cymunedol.
Hyrwyddo cyfleoedd cyfranogiad tenantiaid i gysylltu â mwy o denantiaid mewn ffyrdd creadigol	
Targedu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd e.e. pobl ifanc, mamau sengl, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac ati, a rhoi ffyrdd gwahanol o sicrhau eu bod yn cymryd rhan ar waith	
Cynorthwyo grwpiau tenantiaid presennol i fod ag effaith ystyrion	
Sicrhau bod pobl leol yn rhan o ddatblygu camau gweithredu lleol e.e. cynlluniau gweithredu lleol, teithiau o ystadau, gwario cyllidebau ystâd ac ati	


Amcan 3: ADEILADU CAPASITI – rhoi cymorth, cyfleoedd hyfforddi a datblygu i alluogi tenantiaid i wneud gwahaniaeth

Canlyniadau

3.1 Mae gan denantiaid y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan

3.2 Gall tenantiaid a grwpiau tenantiaid gael mynediad at gymorth ymarferol a'r cyngor sydd ei angen arnynt

Yr hyn yr ydym yn ei dargedu	Astudiaeth achos
Ymgymryd ag archwiliadau sgiliau/gwybodaeth o grwpiau tenantiaid presennol i adnabod bylchau a chyfleoedd am fwy o hyfforddiant	Mae'r tîm Buddsoddi a Chyfranogi Cymunedol wedi sefydlu ystod o 'fentrau cyflogaeth' â'r bwriad o helpu tenantiaid i fynd yn ôl i'r byd gwaith. Mae'r sesiynau hyfforddi sy'n cael eu rhedeg yn cynnwys iechyd a diogelwch, prawf theori gyrru ac adeiladu a diogelwch safle (sy'n galluogi deiliaid cerdyn i gael cyflogaeth ar safleoedd adeiladu). Mae llawer o bobl wedi mynychu'r sesiynau ac mae rhai sydd wedi bod yn ddi-waith ers tro wedi llwyddo i gael gwaith gyda chontractwyr lleol. Enghraifft arall yw sefydlu grŵp i redeg yr Ardd Gymunedol yn Nhreharne. Yn ddiweddar daeth y Cyngor yn gyfrifol am reoli'r ardd, gan
Datblygu cynlluniau datblygu/hyfforddi unigryw i grwpiau tenantiaid gwahanol	
Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi i denantiaid i wella ansawdd eu bywyd h.y. cyflogadwyedd, ffyrdd o fyw iach, cynhwysiant ariannol ac ati.	
Datblygu'r ystod o fentrau cyflogadwyedd	
Cynhyrchu pecyn cymorth gwybodaeth i grwpiau newydd pan fyddant yn sefydlu	
Gweithio gyda TPAS i roi hyfforddiant neu ganllawiau	



weithio gyda grŵp newydd o wirfoddolwyr. Cafodd y grŵp gefnogaeth gan staff y Cyngor a threfnwyd hyfforddiant gyda GVS, Canolfan Wirfoddoli'r Fro, er mwyn sicrhau bod y grŵp wedi'i sefydlu'n ffurfiol ac yn dod yn gyfrifol am reoli pob agwedd ar waith yr ardd gymunedol o ddydd i ddydd.

Amcan 4: GWRANDO A DYSGU - ceisir adborth gan ystod eang o denantiaid ac mae hyn yn llywio gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir

Canlyniadau

4.1 Ceir ystod eang o adborth gan denantiaid

4.2 Defnyddir adborth tenantiaid yn rhan o ddarpariaeth gwasanaeth

Yr hyn yr ydym yn ei dargedu
Cynnal arolwg boddhad tenantiaid mawr bob chwe mis er mwyn rhoi adborth ar wasanaethau
Arolygon misol ar faterion penodol e.e. Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG), gosodiadau newydd
Sefydlu panel ymgynghori tenantiaid i roi adborth ar faterion penodol
Rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd ar ôl materion a nodwyd yn yr arolwg tenantiaid
Cyhoeddi canlyniadau'r arolwg tenantiaid mewn cylchlythyr

Astudiaeth achos
Cwblhawyd arolwg tenantiaid ar raddfa fawr dros yr haf a roddodd gyfle i bob tenant i roi adborth ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir gan y Tîm Tai a Gwasanaethau Adeiladu. Cafwyd ymateb ardderchog a gwnaeth dros 25% o denantiaid lenwi a dychwelyd yr holiadur. Roedd hyn yn ein galluogi ni i gymharu sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn ystod o landlordiaid cymdeithasol eraill gan nodi meysydd i wella.
Sefydlwyd gweithgor i ddadansoddi'r canlyniadau'n fanwl a chreu cynllun gweithredu i fynd ar ôl y prif bryderon. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys staff o dimau gwahanol ac yn cwrdd yn rheolaidd i fonitro cynnydd ac i sicrhau bod adborth tenantiaid yn arwain at wasanaethau gwell.

Cynllun Cyflawni Gweithredol

Amcan 1: INTEGRIDDIO – gwneud ymgysylltu â thenantiaid yn rhan hanfodol o'n busnes, gan ddylanwadu ar sut y caiff gwasanaethau eu darparu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud a sut mae arian yn cael ei wario.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant (Mesur)	Cam Gweithredu	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
1.1 Mae tenantiaid a grwpiau tenantiaid yn chwarae rhan bwysig ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Adran	Nifer y grwpiau tenantiaid	Prif Swyddog (Pennaeth Gwasanaeth) wedi'i benodi i weithredu fel pencampwr dros ymgysylltu â thenantiaid ac yn cymryd cyfrifoldeb cyffredinol dros weithredu'r Strategaeth Ymgysylltu â Thenantiaid	Hyd 17	Parhaus
	Nifer y tenantiaid actif	Gweithio'n agos gyda'r gweithgor tenantiaid a'r Fforwm Dylunio Ansawdd (FfDA) i gynyddu aelodaeth ac i ddatblygu capasiti.	Rhag 17	Meh 18
		Gweithgor Tenantiaid yn ymgynghori'n rheolaidd ar wasanaethau ac yn cael mewnbwn ystyrion ar strategaethau a pholisïau allweddol sy'n effeithio ar denantiaid. Tystiolaeth o ymgynghori â thenantiaid i fod yn rhan o adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu	Hyd 17	Parhaus
		Sefydlu tîm craffu tenantiaid sy'n gallu ymgymryd â gwiriadau ansawdd ac adolygiadau gwasanaeth	Meh 18	Meh 19
1.2 Mae staff rheng-flaen yn rhan o egwyddorion Ymgysylltu â Thenantiaid		Ymgysylltu â Thenantiaid i ddod yn eitem agenda sefydlog mewn cyfarfodydd tîm ac mewn sesiynau 1:1 misol staff	Hyd 17	Parhaus

Amcan 2: CYNHWYSOL – sicrhau bod cyfleoedd ar gael i bob tenant i gymryd rhan a gwella'r lefelau ymgysylltu presennol

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant (Mesur)	Cam Gweithredu	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
2.1 Mae tenantiaid yn teimlo'n rymus ac yn fodlon	% y tenantiaid sy'n fodlon ar gyfleoedd i gymryd	Datblygu bwydlen hyblyg o gyfranogiad tenantiaid sy'n golygu y bydd trawstoriad ehangach o denantiaid yn cymryd rhan	Ebrill 18	Hyd 18

ar y cyfleoedd i gymryd rhan	rhan	Hyrwyddo cyfleoedd cyfranogiad tenantiaid yn y cylchlythyr tenantiaid, gwefan, cyfryngau cymdeithasol, taflenni ac ati.	Ion 18	Parhaus
		Targedu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd e.e. pobl ifanc, mamau sengl, pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac ati, a rhoi ffyrdd gwahanol o'u cynnwys ar waith	Ebrill 18	Medi 18
		Cwrdd â Thenantiaid presennol a Chymdeithasau Preswylwyr ac ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad pellach, projectau ychwanegol ac ati.	Meh 18	Rhag 18
		Sicrhau bod pobl leol yn rhan o ddatblygu camau gweithredu lleol e.e. cynlluniau gweithredu lleol, teithiau o ystadau, gwario cyllidebau ystâd ac ati	Hyd 17	Mawrth 18
		Sefydlu panel/bwrdd ymgynghori â thenantiaid y mae modd ei ddefnyddio i roi adborth ar themâu penodol	Rhag 17	Medi 18
		Adolygu aelodaeth presennol y Gweithgor a'r Fforwm Dylunio Ansawdd ac ymgymryd ag ymgyrch i recriwtio mwy o aelodau	Rhag 17	Medi 18
2.2 Mae ymgysylltu â thenantiaid yn cynrychioli'r boblogaeth denantiaid ehangach				

Amcan 3: ADEILADU CAPASITI – rhoi cymorth, cyfleoedd hyfforddi a datblygu i alluogi tenantiaid i wneud gwahaniaeth

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant (Mesur)	Cam Gweithredu	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
3.1 Mae gan denantiaid y sgiliau a'r hyder i gymryd rhan	Nifer y tenantiaid actif	Ymgymryd ag archwiliadau sgiliau o grwpiau tenantiaid presennol i adnabod bylchau a chyfleoedd am ddatblygiad pellach	Rhag 17	Mawrth 18
		Datblygu cynlluniau hyfforddi/datblygu ar gyfer grwpiau tenantiaid presennol	Ebrill 18	Tach 18
		Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi i denantiaid unigol i wella cyflogadwyedd	Hyd 17	Parhaus
		Adnabod tenantiaid sydd â diddordeb mewn ymuno â grŵp craffu a chynnig hyfforddiant a chymorth	Meh 18	Meh 19
3.2 Gall tenantiaid a grwpiau tenantiaid gael mynediad at		Cynhyrchu pecyn cymorth gwybodaeth i grwpiau tenantiaid newydd pan fyddant yn sefydlu	Ebrill 18	Medi 18

gymorth ymarferol a'r cyngor sydd ei angen arnynt		Gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyngori ar Gyfranogiad Tenantiaid (GCGT) a/neu Ffederasiwn Tenantiaid Cymru (FFTC) i roi hyfforddiant a/neu gymorth i grwpiau tenantiaid presennol	Medi 18	Mawrth 19
---	--	---	---------	-----------

Amcan 4: GWRANDO A DYSGU - ceisir adborth gan ystod eang o denantiaid ac mae hyn yn llywio gwelliannau yn y gwasanaethau a ddarperir

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant (Mesur)	Cam Gweithredu	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
4.1 Ceir ystod eang o adborth gan denantiaid	% yn fodlon bod barn yn cael ei hystyried a'i gweithredu arni	Cynnal arolwg boddhad tenantiaid mawr bob dwy flynedd er mwyn gyrru gwelliannau o ran safonau Ymgymryd ag arolygon tenantiaid misol ar faterion penodol e.e. YG, gosodiadau newydd ac ati.	Medi 18	Ion 19
	Nifer o newidiadau gwasanaeth sy'n deillio o fewnbwn tenantiaid	Sefydlu panel ymgynghori tenantiaid i roi adborth ar faterion penodol	Hyd 17	Parhaus
	4.2 Defnyddir adborth tenantiaid yn rhan o ddarpariaeth gwasanaeth	Rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd ar ôl materion a nodwyd yn yr arolwg tenantiaid	Rhag 17	Medi 18
Gwybodaeth ar berfformiad ar gael i denantiaid yn y cylchlythyr tenantiaid, gan gynnwys gwybodaeth gymharol yn nodi sut mae'r Fro'n perfformio o'i gymharu â landlordiaid cymdeithasol eraill		Chwe 18	Meh 18	
Cyhoeddi adran 'dywedoch chi, fe wnaethon ni' yn y cylchlythyr tenantiaid, yn nodi enghreifftiau o sut mae adborth tenantiaid wedi arwain at newidiadau positif		Rhag 17	Mai 18	